


# CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref  
Ffordd Wynnstay  
RHUTHUN  
LL15 1AS  
Ffôn: (01824) 703797  
e-bost: [clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk](mailto:clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk)



Sandra Williams

Clerc y Dref / Town Clerk: ~~Dafydd Williams~~

Town Hall  
Wynnstay Road  
RUTHIN  
LL15 1AS  
Tel: (01824) 703797  
e-mail: [clerk@ruthintowncouncil.gov.uk](mailto:clerk@ruthintowncouncil.gov.uk)

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

19 Ionawr 2016

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr  
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 25 IONAWR 2016** am 7:00 p.m. Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Sandra Williams*

Sandra Williams  
**Clerc y Dref**

## **AGENDA**

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**  
Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**  
I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2015.
- 6. MATERION YN CODI**
- 7. PWYLLGOR AMWYNDERAU**  
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2016.
- 8. PRISIAU AR GYFER TORRI GLASWELLT, PLANWYR A DYFRIO'R PLANWYR**  
Derbyn gwybodaeth am gost rhoi hysbyseb am yr uchod yn y Daily Post.

## 9. GWOBR DINESYDD DA 2016

Derbyn diweddariad yn dilyn cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2016.

## 10. INSURANCE – ZURICH

Derbyn a thrafod yr hysbysiad adnewyddu yswiriant gan gwmni yswiriant Zurich ar gost o £4,380.02 am y cyfnod 1 Chwefror 2016 i 31 Ionawr 2017.

## 11. DIWRNODAU PARCIO AM DDIM 2016

Derbyn cadarnhad fod Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig pum diwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio Rhuthun un 2016, a dewis y dyddiadau.

## 12. MOWLD GWYDR FFIBR COFEB TOM PRYCE

Derbyn manylion am symud y mowld o stiwdio Neil Dalrymple yng Nghanolfan Grefft Rhuthun i'r Storffeydd Corfforaethol yn Lôn Parcwr.

## 13. GOHEBIAETH

Derbyn a nodi'r eitemau gohebiaeth isod

- i. Gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol Apêl Canser Gogledd Cymru, 6.30pm, Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2016, Canolfan Triniaeth Canser Gogledd Cymru, Bodelwyddan
- ii. Gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol a Seremoni Wobrwyo Undeb Credyd Gogledd Cymru, 2pm, Dydd Sadwrn, 30 Ionawr 2016, Canolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndwr, Wrecsam
- iii. Neges e-bost gan Wasanaeth Gwaed Cymru ynghylch sesiynau rhoi gwaed yn Rhuthun
- iv. Neges e-bost gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch digwyddiad Diwrnod Lluoedd Arfog Gogledd Cymru, 18 Mehefin 2016 yng Nghastell Bodelwyddan
- v. Neges e-bost gan Un Llais Cymru ynghylch Diwrnod Partneriaeth y Rhyfel Byd Cyntaf, 10am, 28 Ionawr 2016, Canolfan Gynadledda MedRus, Prifysgol Aberystwyth
- vi. Neges e-bost gan Un Llais Cymru ynghylch Goleufeydd Pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed

## 14. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2016/17

Derbyn amcangyfrifon drafft ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2017 gan Glerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol (copi melyn).

## 15. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31<sup>ain</sup> Rhagfyr 2015 (copi gwyrdd).

## 16. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

841	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		259.43
842	HCI Data Limited	Adnewyddu cyngortrefrhuthun.gov.uk a ruthintowncouncil.gov.uk am ddwy flynedd	*	167.40
843	Marian Rees	Cyfieithu	*	90.00
844	Zurich	Adnewyddu yswiriant		4,380.02
845	Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio x 2 yn dilyn y cyfarfod ar 22 Ionawr		30.00
A.S.	Canda Copying Limited	Rhentu a chopïau isafswm	*	129.14
846	Canda Copying Limited	Copïau ychwanegol – du a gwyn	*	11.27
847	Canda Copying Limited	Copïau ychwanegol – lliw	*	46.01
848	Eglwys Sant Pedr, Rhuthun	Lifoleuo, 1 Ionawr 2015 - 31 Rhagfyr 2015		610.57
849	G J Teeson Ltd	Gwaith trwsio ffens y Caeau Chwarae Coffa	*	252.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda \* yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £115.97)

## 17. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I gadarnhau Nos Lun, 22 Chwefror 2016 fel dyddiad y cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.